

CYMANFA



■ **1988** ■

“Genau glan a gana’n glir”

Dan nawdd Eglwysi Annibynnol
Groeswen a Bethlehem

Rhaglen

Y GANFED CYMANFA GANU

A gynhelir yng
**NGHAPEL BETHLEHEM
GWAELOD-Y-GARTH**

Dydd Gwener y Groglith, 1 Ebrill 1988

Y Cyfarfodydd i ddechrau am 10.30, 2.30 a 6.00 o'r gloch

Arweinydd:
ALUN GUY
Caerdydd

Cyfeilyddion:
Mrs V. Archard, Groeswen
Mr. Glyndwr Williams, Bethlehem
Mr. Christopher Powell, Bethlehem

Swyddogion y Pwyllgor:
Cadeirydd: Wyn Roberts, Ysw.
Trysorydd: Christopher Powell, Ysw.
Ysgrifennydd: Robin D. N. Bateman, Ysw.

RHAGAIR

Yr oedd Gwaelod-y-garth gan mlynedd yn ôl yn hollol wahanol i'r pentref sy'n gyfarwydd i ni heddiw. Dyma ddisgrifiad dau deithiwr o Saeson ohono yn 1861:

"We are now in a great mining district; the hills above us produce the iron and coal that make the district "rich"; ... The mountain before us is the GARTH MOUNTAIN; at its foot is an iron foundry of great extent, around which are collected the dwellings of labourers."

Hwn oedd y cyfnod pan dyfodd poblogaeth cyffiniau Caerdydd yn gyflym iawn a dynion o bob rhan o Brydain yn cyrraedd De Cymru i weithio yn y meysydd glo gan ddod â'u teuluoedd gyda hwy. Hwn oedd y cyfnod o ffyniant ariannol i'r ychydig a gwaith caled i'r rhan fwyaf. Hefyd, hwn oedd cyfnod y Diwygiad mawr.

Pan "greodd" Ieuan Gwyllt y Gymanfa Ganu yn 1859, nid oedd yn bosibl iddo fod wedi rhagweld ei phoblogrwydd mawr a'i hapêl barhaol. Ond, er hynny, mae'n rhaid ei fod wedi bod yn hollol ymwybodol bod y cysylltiad rhwng diwinyddiaeth a cherddoriaeth gorawl yn fformwla fuddugol, yn sicr yng Nghymru.

Yn y dyddiau cynnar, yr oedd cysylltiad agos iawn rhwng Cymanfaoedd Canu a'r Mudiad Dirwest ac felly cafodd y Cymanfaoedd gryn dipyn o gefnogaeth mewn oes pan oedd diota yn arferol iawn. Nid canolfannau crefyddol yn unig oedd y capeli yn yr oes hon: yr oeddent hefyd yn ganolfannau cymdeithasol lle byddai'r werin bobl yn derbyn adloniant ac addysg. Oherwydd poblogrwydd y Cymanfaoedd Canu, buan y daeth galw ar bob capel i sefydlu Cymanfa, neu i gysylltu â chapeli agos o'r un enwad i gynnal Cymanfa Ganu.

Yn wreiddiol, yr oedd chwe chapel Annibynnol yn yr "Undeb Canu Cynulleidfaol": Bethlehem (Gwalod-y-garth), Glandŵr (Glan-llyn), y Watford (Mynydd Caerffili), Bronllwyn (Pentyrch), Y Winllan (Nantgarw), a'r Groes-wen. Dros y blynyddoedd, fodd bynnag, mae'r chwech wedi lleihau i ddau: gadawodd y Watford yr Undeb cyn y Rhyfel Byd Cyntaf; caewyd Bronllwyn yn 1954; gorffennodd y Winllan yn 1968; a gwerthwyd Glandŵr yn 1971. Erbyn hyn, dim ond Bethlehem a'r Groes-wen sy'n parhau o'r chwech gwreiddiol.

Enw y Gymanfa yn ôl y rhaglenni cynnar oedd "Y Gymanfa Gerddorol". Ymddangosodd y teitl "Y Gymanfa Ganu" yn gyntaf yn y tridegau, ac wrth gwrs, mae hi wedi cadw at y teitl hwn hyd heddiw.

Yr oedd Gwener y Groglith yn ddiwrnod od iawn i'w ddewis ar gyfer gŵyl ganu mewn eglwys Gristnogol, ac, yn arbennig yn y blynyddoedd ddiwethaf, mae cwestiynau pwysfawr wedi eu codi yn holi pam y mae Cymanfa Ganu Gwaelod-y-

garth ar yr un diwrnod ag y mae Cristnogion dros y byd i gyd yn cofio marwolaeth Iesu Grist ar y Groes.

Yn ôl un chwedl leol, cafodd Gwener y Groglith ei ddewis oherwydd bod Ffair yn Llandaf ar y diwrnod hwnnw. Felly penderfynodd pobl Gwaelod-y-garth gynnal Cymanfa yn y pentref i atal y bechgyn lleol rhag mynd i'r Ffair. Ond, mewn gwirionedd, dros y Sulgwyn y cynhelid Ffair Llandaf ac nid ar Ddydd Gwener y Groglith.

Yr oedd, mae'n debyg, ddau reswm pam y dewiswyd Dydd Gwener y Groglith yn 1889. Yn gyntaf, tueddai yr anghydfurfwr i gyd, a'r Annibynwyr yn arbennig, i anwybyddu'r gwyliau a oedd â chysylltiad uniongyrchol â'r Eglwys Anglicanaidd. Yn ail, mewn pentrefi bychain gwerinol ym Morgannwg ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, prin iawn oedd dyddiau'r flwyddyn ar wahân i'r Sul pan nad oedd gwŷr y pentref wrthi yn y Pwll Glo neu yn y Gwaith. Yr oedd Cymanfa Ganu yn Sardis, Pontypridd eisoes ar Ddydd Llun y Pasg, felly yr oedd Dydd Gwener y Groglith yn ddewis amlwg ar gyfer Cymanfa Bethlehem, a hynny am reswm cymdeithasol yn hytrach nag un diwinyddol. Yn ddiau, pan ddechreuodd Cymanfa Ddirwest ryngenwadol yn Ffynnon-daf chwe blynedd yn ddiweddarach, yn 1895, yr unig ddiwrnod ar ôl iddi oedd Dydd Mawrth y Pasg.

O'r dechrau cyntaf, sefydlwyd pwyllgor i drefnu'r ŵyl flynyddol. Paratoid ac argrefftid rhaglen arbennig bob blwyddyn. Yr oedd tri chyfarfod: un yn y bore ar gyfer y plant, yna un yn y prynhawn ac un yn yr hwyr ar gyfer yr oedolion, yn union fel y mae hi heddiw.

Y rhaglen gynharaf sydd ar gael yw'r un a baratowyd ar gyfer y seithfed Gymanfa yn 1895. Yn ystod y can mlynedd, gydag ychydig iawn o eithriadau, mae'r Gymanfa wedi cyhoeddi ei detholiad ei hun, yn hytrach na defnyddio unrhyw un arall. Un eithriad i hyn oedd, yn ystod y tridegau, pan ddefnyddiwyd rhaglen a gyhoeddwyd gan Gyfundeb Annibynwyr Gogledd Morgannwg. Y pryd hwnnw cafodd y detholiad hwn gylchrediad eang hyd yn oed at Dowyn, Sir Feirionnydd. Ond, ar gyfer Cymanfa y Jiwili yn 1939 ail-gychwynnodd Pwyllgor y Gymanfa argraffu ei rhaglenni ei hun.

Cyhoeddwyd rhaglenni arbennig yn y pedwardegau i ddathlu gwaith tri emynwr enwog o Gymry: Dr. Joseph Parry yn 1941, a D. Emlyn Evans ac M.O. Jones yn 1943. Yr unig dro y methodd y pwyllgor â chyhoeddi rhaglen oedd yn 1973, pryd - efallai oherwydd diffyg arian, neu, yn fwy tebygol, fel arbrawf - yr argraffwyd rhestr o emynau yn unig ac y defnyddiwyd rhaglen yr Enwad.

Canlyniad i argraffu detholiad annibynnol yw nid yn unig bod cyfarfodydd blynyddol y Pwyllgor yn rhai bywiog iawn pan fo aelodau yn cystadlu â'i gilydd i weld faint o emynau o'u dewis hwy a fydd yn y rhaglen nesaf, ond hefyd, ac yn fwy

pwysig o lawer, sicrhau dewis eang a chatholig o emynau sy'n cynnwys nifer wedi eu comisiynu yn arbennig.

Cyn belled yn ôl â detholiad 1921, cyhoeddwyd y dôn "William" gan Morfydd Llwyn Owen a ysgrifennwyd yn 1915 ac a ystyrir gan nifer o bobl yn dôn gyfoes hyd heddiw. Dros y blynyddoedd, bu nifer o donau gan D. Afan Thomas a Dr. Vaughan Thomas yn y detholiadau er mai dim ond ychydig ohonynt sydd i'w gweld mewn llyfrau emynau cyfoes. Cyfrannodd cyfansoddwyr lleol megis John Jones, F.R.C.O., Ffynnon-daf, ac A.G. Phillips, Gwaelod-y-garth, donau yn rheolaidd; ac mae rhaglenni mwy diweddar yn cynnwys tonau newydd gan gerddorion lleol eraill megis Eilonwy Jenkins, Elsbeth Lewis, Christopher Powell, Islwyn Evans, Peter Wynn Thomas ac Euros Rhys Evans. Mae geiriau newydd wedi ymddangos hefyd yn y rhaglenni gan feirdd megis y Prifardd Einion Evans, ac mae'r Parchedig Ifor Rees wedi cyfrannu nifer o emynau newydd ardderchog yn ystod y blynyddoedd. Gwelwn hen ffefrynnau megis Tydi a Roddaist, Pantyfedwen ac Arwelfa yn y detholiad gydag amrediad eang o donau o rai Sankey a Moody i siant Eingl-Gatholig.

O'r dyddiau cynnar iawn mae'r rhaglen flynyddol wedi bod ar werth am lai na chost y cyhoeddi, mae'r casgliadau ar Ddydd Gwener y Groglith yn talu am y gweddill. Sut bynnag, dros y blynyddoedd, mae nifer y rhaglenni sydd wedi'u gwerthu, wedi aros yn gyson ar ryw dri chan copi. Yn y dyddiau cynnar, mae hi'n ddiddorol gweld bod y rhaglenni yn gynnwys hysbysebion.

Y tu mewn i'r rhaglenni cynnar mae Sylw chwe phwynt sy'n werth ei nodi yn llawn:

Dalier Sylw.

- 1.- Taer ddymunir am weddïau'r holl Eglwysi ynglŷn â'r rhan hon o waith y Cysegr.
- 2.- Dymuna'r Pwyllgor YN DAER ar y Corau i roddi pob nos Saboth yn llwyr i waith y Gymanfa.
- 3.- Disgwylir a dymunir ar y rhai mewn oed i ddysgu Tonau'r Plant, fel y gellir eu canu yn y cyfarfodydd ereill.
- 4.- Ni chaniateir i neb fyned i'r Oriel ar ddydd y Gymanfa ond trwy docyn.
- 5.- Paratöir lluniaeth yn y Festri ar ol cyfarfod y bore yn rhâd (i'r cantorion); ac ar ol cyfarfod y prynhawn bydd têt i'w gael am chwe' cheiniog yr un i'r rhai dros 14eg oed, a cheiniog yr un i blant Eglwysi Nantgarw, Glandwr, a Bronllwyn.
- 6.- Disgwylir i holl Swyddogion yr Eglwysi roddi cefnogaeth wresog i'r canu, a rhoddi eu presenoldeb yn yr Ysgol Gân yn ogystal a'r *Rehearsals*.

Yn ogystal â chanu emynau, bu'r côr hefyd yn perfformio anthemau, weithiau cymaint â thair yn ystod y dydd. Dros y blynyddoedd, mae'r rhestr yn un ddisglair. Mae gweithiau poblogaidd y cyfansoddwyr clasurol Ewropeaidd yno yn ogystal â rhai gan gerddorion Cymreig a chyfansoddwyr lleol: Mawr yw'r Iôr (Mozart); Emyn y Greadigaeth a Haleliwia i'r Goruchaf (Beethoven); Cytgan yr Haleliwia, And the Glory of the Lord a Worthly is the Lamb (Handel); Be not Afraid (Mendelssohn); Teyrnasoedd y Ddaear (Ambrose Lloyd); Dyn a Aned o Wraig (Christmas Williams); a Cenwech i'r Arglwydd (H. Jenkins, Ffynnon-daf).

O'r dyddiau cynnar hyd at y chwedegau, byddai'r capel dan ei sang. Yn 1952 ysgrifennodd John Charles Davies yn ei nodiadau ar y Gymanfa: "Tywydd rhagorol - Capel yn orlawn am 5 o'r gloch". Unwaith eto, mor ddiweddar â 1964 fe sylwodd: 'Oedfaon mawr - pawb yn dweud "Y Gymanfa ore" eto'. Eisteddai y côr ar yr Oriol, ac yn ôl y rhaglenni cynnar, yr oedd mynediad drwy docyn yn unig. Deuai'r gynulleidfa o ardaloedd mor bell â Gorllewin Morgannwg ac Ynys Môn i glywed y canu, a chyrhaeddai cerbydau llawn o Bontypridd, Y Rhondda ac Abertridwr.

Dros y blynyddoedd bu llawer o bobl leol yn gweithio yn galed iawn dros lwyddiant parhaus y Gymanfa, nifer ohonynt o un o ganghennau teulu enwog y Phillipiaid. Mae hi'n amhosibl enwi pob un. Digon yw nodi "hoelion wyth" Pwyllgor y Gymanfa sydd wedi rhoi gwasanaeth arbennig o hir: Evan John Phillips, sef, mae'n debyg, yr Ysgrifennydd cyntaf ac, fel Organydd Capel Bethlehem yr oedd yn ddyn pwysig iawn hyd at ei farwolaeth yn 1944; ei fab-yng-nghyfraith John Charles Davies, a gymerodd at yr awenau fel Organydd ac a oedd yn brif gonglfaen y Gymanfa o'r pedwardegau hyd at ei farwolaeth ddeng mlynedd yn ôl; merch E.J. Phillips, Mrs. Beatrice Anthony a ganodd y piano yn y cyfarfodydd am ddeng mlynedd a thrigain; Glyndwr Williams a ddechreuodd ganu'r organ yn y Gymanfa yn 1931 fel "Master Glyndwr Williams" ac sy'n ei chanu o hyd; a Mrs. Valmai Archard a ganodd y piano gyntaf yng Nghymanfa 1949 ac sydd nawr yn un o selogion prin y Gymanfa o Gapel y Groes-wen.

Teyrnged fawr iddynt hwy ac i ganuoedd eraill sydd wedi cefnogi'r Wyl dros y blynyddoedd yw ein bod ni yn gallu dathlu'r Ganfed Cymanfa Ganu yma yng Ngwaelod-y-garth eleni.

Christopher Powell

Cyfarfod y Bore, am 10-30 o'r gloch.

Alpwrdd: Rhianon Roberts (Betws, Rhyddaman)

Darlloenpdd: Nolo Evans

1960

ELISABETH

(Trwy ganiatad).

Doh A.

A. G. Phillips.

{	s ₁ :s ₁ :s ₁ :d	m ₁ :r :d :r d :—	l ₁ :d s ₁ :m	r :d r :—
	m ₁ :s ₁ m ₁ :s ₁	d :m ₁ s ₁ :—	f ₁ :s ₁ m ₁ :d	s ₁ :l ₁ s ₁ :—
	d :r d :m	s :d m :—	d :d d :s	t ₁ :fe t ₁ :—
	d :t ₁ d :d ₁	d :l ₁ d :—	f ₁ :m ₁ d ₁ :d	t ₁ :r s ₁ :—

{	s :s :f m :d	f :m r :—	d :l ₁ :d s ₁ :d	r :t ₁ d :—
	d :r d :s ₁	s ₁ :d t ₁ :—	s ₁ :f ₁ s ₁ :s ₁	l ₁ :s ₁ s ₁ :—
	m :t ₁ s :m	r :s s :—	m :d r :m	f :f m :—
	m ₁ :s ₁ d :d	t ₁ :d s ₁ :—	d ₁ :f ₁ t ₁ :d	r ₁ :s ₁ d ₁ :—

Iesu annwyl, gwrando fi,
Mae trugaredd ynot Ti;
At bwy'r af i ddweyd fy nghwyn?
Buost farw er fy mwyn.

Nid wy'n ceisio ger Dy fron
Aur a pherlau'r ddaear hon;
Iesu annwyl, gwna fi'n sant,
Cymer fi yn un o'th blant.

Clywais ddweyd fod plant fel fi,
Yn y nefoedd gyda Thi;
Os caf innau yno ddod
Canu wnaaf am byth Dy glod!

EMRYS.

Y DEG GORCHYMYN.

Copyright gan Joseph Williams a'i Feibion, Swyddfa'r "Tyst," Mèrthyr.

Doh D. Cytgan.

Parch. H. T. Jacob.

s :s	s :m	l :l	l :—	t :d'	t :l	l :s	s :—
d :t,	d :d	d :de	r :—	r :r	r :d	d :t,	t :—
m :f	s :s	l :s	f :—	fe :fe	fe :fe	fe :s	s :f
d :r	m :d	f :m	r :—	r :r	r :r	r :s,	s :—

s :s	s :m	l :l	l :—	s :s	l :t	d' :—	— :—
d :t,	d :d	d :de	r :—	m :m	f :f	m :—	— :—
m :f	s :ta	l :l	l :—	d' :d'	d' :r	d' :—	— :—
d :r	m :d	f :m	f :—	s :s	s :s,	d :—	— :—

G. Beth yw y Deg Gorchymyn?

- A. Rheol sanctaidd roddodd Duw
Er mwyn dysgu dyn i fyw;
Parchu Duw a pharchu dyn,
Er Ei fwyn Ei Hun.

G. Sut y daeth y Gorchymynion i ni?

- A. Duw 'sgrifennodd rhai'n â'i law,
Ar ddwy lech ar Sinai draw;
Ac i Moses rhoes y ddwy—
Dyna'u hanes hwy.

G. Beth yw'r cyntaf o'r Gorchymynion?

- A. Dylem gofio yn ddiffael
Nad oes ond un Duw i'w gael,—
Llywodraethwr byd a nef,
A'i addoli Ef. (Exodus xx. 1-3).

G. Beth yw cynnuys yr ail Orchymyn?

- A. Nas goddefa'r Ior i ddyn
Wneuthur delwau iddo i hun;
Mae y neb a wnelo'r drwg
O dan Ddwyfol ŵg. (Exodus xx. 4-6).

G. Beth ddywed y Trydydd Orchymyn?

- A. Nad dieuog undyn byw
Dd'wedo'n ofer enw Duw;
Gyda pharch y dylem son
Am y sanctaidd Ion. (Exodus xx. 7).

Y DEG GORCHYMYN—parhad.

G. Son am beth mae'r Pedwerydd Gorchymyn?

- A. Am gysegru'r Saboth glân
Oll i Dduw, mewn mawl a chân,
Gadael pob rhyw fyddol waith
Am un dydd o'r saith. (Exodus xx. 8-11).

G. Beth yw Pumed ofyn Duw?

- A. Caru a pharchu'r tad a'r fam
Sy'n myn'd rhyngom a phob cam;
Dyry Duw Ei fendith dda
I bob un a'i gwna. (Exodus xx. 12).

G. Rhag beth gofynnir i ni ymgadw yn y chweched?

- A. Rhag llofruddiaeth erchyll, flin,
Trochi llaw yng ngwaed cyd-ddyn;
Nid oes drwy y cread crwn
Dduach drwg na hwn. (Exodus xx. 13).

G. Annog i beth mae'r seithfed?

- A. Myn gymeriad cyfan, glân,
Llaw'n mor wyn a'r eira mân;
Heb odineb arno'n graith
I anurddo'th daith. (Exodus xx. 14).

G. Son am beth mae'r wythfed?

- A. Am onestrwydd—dwylaw pur,
Na ddwg eiddo neb drwy'r tir;
Dwylaw'r lleidr—d'weder pwy
Mwy di-barch na hwy? (Exodus xx. 15).

G. Beth yw pumc y nawfed Gorchymyn?

- A. Dweyd y gwir, a doed a ddél,
Am ein gilydd yn ddigél;
Celwydd syrth ryw ddydd yn sarn—
Saif y gwir drwy'r Farn. (Exodus xx. 16).

G. Beth mae'r degfed yn geisio gennym?

- A. Paid a chwennych—paid rhoi'th fryd
Ar feddiannau neb yn pryd;
Bydd dy galon fel dy law
Yn y Farn a ddaw. (Exodus xx. 17).

G. Beth ddywedodd Iesu Grist yw swm a sylwedd y Deg Gorchymyn?

- A. Hyn yw dyled gyfan dyn—
Caru arall fel ei hun,
Caru Duw â serch di-goll;
Dyna'r gyfraith oll.

MAE POB PETH YN DDA.

KEY Ab. Yn fywiog.

O "Telyn yr Ysgol Sul," troi ganiatad.

:s, s, :d :r	m :- :- d :- :d r :d :l,	s, :- :- - :-
:m, m, :m, :f,	s, :- :- m, :- :m, f, :f, :f,	m, :- :- - :-
Er garwed y	gwyntoedd, er dued y	nen,
Os dirgel Rhag-	luniaeth ddwg angau i'm	cwrdd
pPan ddof yn y	diw - edd ar derfyn y	daith,
Ar fore'r dydd	ol - af 'nol codi o'r	bedd,
:d d :d :d	d :- :- d :- :s, l, :l, :d	d :- :- - :-
:d, d, :d, :d,	d, :- :- d, :- :d, f, :f, :f,	d, :- :- - :-

:s, s, :d :r	m :- :- s :- :m d :t, :d	r :- :- - :-
:m, m, :s, :s,	s, :- :- d :- :s, s, :s, :d	t, :- :- s, :-
Er amled y	ton - au orchuddiant fy	mhen,
A chym'ryd fy	ffrynd - iau an - wyl - af i	ffwrdd,
A glyn cysgod	ang - au yn dy - wyl a	maith,
Yn llewyrch ei	wyn - eb yn llawnder ei	hedd,
:d d :d :t,	d :- :- m :- :d s :f :m	s :- :- t, :-
:d, d, :m, :s,	d :- :- d :- :d m :r :d	s, :- :- - :-

:s, s, :d :r	m :- :- d :- :d r :d :s,	l, :- :- - :-
:f, m, :s, :t,	d :- :- s, :- :m, m, :m, :m,	f, :- :- - :-
Cynhyr - fed y	mor - oedd, terfysged y	byd,
A m gadael fy	hun - an yn un - ig a	thlawd,
Yn nyfroedd yr	af - on, fy nghynala	wna,
'N coll - i pob	gel - yn, a phechod, a	phla,
:r d :m :s	s :- :- m :- :d s, :s, :d	d :- :- - :-
:s, d, :d, :s,	d :- :- d, :- :d, d, :d, :d,	f, :- :- - :-

:d f :s :l	s :- :- d :- :r m :f :r	d :- :- - :-
:l, d :d :d	d :- :- s, :- :l, s, :s, :s,	s, :- :- - :-
Yr Ies - u yw	Ar - glwydd y cyf - an i	gyd.
Bydd Ies - u yn	ar - os yn Geidwad a	Brawd.
A d'wedaf fan	hon - o fod pob peth yn	dda.
Caf floeddio'n dra-	wydd - ol, Mae pob peth yn	dda.
:d d :m :f	m :- :- d :- :d d :r :f	m :- :- - :-
:f, l, :s, :f,	d :- :- m, :- :f, s, :s, :s,	d, :- :- - :-

MAE POB PETH YN DDA.—Pwllad.

CYDGAN. mf

:s, m :f :m	r :- :- - :- :m f :s :f	m :- :- - :-
Mae pob peth yn	dda, Mae pob peth yn	dda,
:s, d :r :d	t, :- :- - :- :d r :m :r	d :- :- - :-
:	:	:
:	s :s :s s :- :- s :- :-	s :s :s s :- :-
Mae	pob peth yn dda, Mae	pob peth yn dda,
:	:	:
:	s, :s, :s, s, :- :- s, :- :-	d :d :d d :- :-

:m s :m :r	d :- :- d :- :t, l, :d :l,	s :- :- - :-
:m s :m :r	d :- :- s, :- :s, f, :l, :f,	yn dda,
Tra'r Iesu'n fy	nghar - u, Mae pob peth yn	dda, peth yn dda.
:m s :m :r	d :- :- d :- :d d :d :d	d :d :d d :- :-
:m s :m :r	d :- :- m, :- :m, f, :f, :f,	d, :d, :d, d, :- :-

mf cres.

:s, d :r :d	t, :- :- - :- :d r :m :r	d :- :- - :-
Mae pob peth yn	dda, Mae pob peth yn	dda,
:	:	:
:	s, :s, :s, s, :- :- s, :- :-	s, :s, :s, s, :- :-
Mae	pob peth yn dda, Mae	pob peth yn dda,
:s, m :f :m	r :- :- - :- :m f :s :f	m :- :- - :-
Mae pob peth yn	dda, Mae pob peth yn	dda,
:	:	:
:	s, :s, :s, s, :- :- s, :- :-	d :d :d d :- :-
Mae	pob peth yn dda, Mae	pob peth yn dda.

:m f :s :l	s :- :- d :- :r m :f :r	d :- :- - :-
:d d :d :d	d :- :- s, :- :l, s, :s, :s,	s, :- :- - :-
Tra'r Iesu'n fy	nghar - u, Mae pob peth yn	dda.
:s f :m :f	m :- :- d :- :d d :r :f	m :- :- - :-
:d l, :s, :f,	d :- :- m, :- :f, s, :s, :s,	d, :- :- - :-

CYSGOD Y GORLAN.

Y Parch. J. J. WILLIAMS.

DOH F. *Tri curiad i'r Mesur.* E. H. HUGHSON, A.R.C.O., Treforris.

{	m		m	:	r	:	m		f	:	—	—		f	:	—	—		f	:	m	:	f		s	:	—	—	—	—	
:	d		d	:	r	:	d		d	:	—	—		t	:	—	—		t	:	d	:	t		d	:	—	—	—	—	
:	s		s	:	s	:	s		s	:	—	—		s	:	—	—		s	:	s	:	s		s	:	—	—	—	—	
:	d		d	:	t	:	d		r	:	—	—		r	:	—	—		r	:	d	:	r		m	:	—	—	—	—	

Yng nghysgod y gor - lan, Y-nghan-ol yr ŵyn,

{	d		d	:	r	:	m		s	:	—	—		f	:	—	—		m	:	r	:	m		r	:	—	—	—	—		
:	d		d	:	t	:	d		d	:	—	—		d	:	—	—		d	:	d	:	d		t	:	—	—	—	—		
:	s		s	:	s	:	s		l	:	—	—		l	:	—	—		f	:	e	:	f	:	e	:	f	:	e	:	s	
:	m		m	:	r	:	d		f	:	—	—		f	:	—	—		r	:	r	:	r		s	:	—	—	—	—		

Mae a - cen y Bu - gail Mor dyn-er a mwyn,

{	f		f	:	m	:	f		l	:	—	—		l	:	—	—		f	:	s	:	f		m	:	—	—	—	—	
:	r		r	:	m	:	r		m	:	—	—		m	:	—	—		r	:	r	:	d		t	:	—	—	—	—	
:	l		l	:	l	:	l		l	:	—	—		l	:	—	—		l	:	t	:	l		se	:	—	—	—	—	
:	r		r	:	de	:	r		de	:	—	—		de	:	—	—		de	:	r	:	r		m	:	—	—	—	—	

Cawn fyw yn ddi - bryd - er Beth bynnag a ddaw,

{	m		m	:	l	:	t		d	:	—	—		d	:	—	—		s	:	t	:	l		s	:	—	—	—	—					
:	t		d	:	m	:	m		m	:	—	—		m	:	—	—		r	:	r	:	d		t	:	—	—	—	—					
:	se		l	:	se		l		l	:	—	—		l	:	—	—		se	:	l		t	:	s	:	fe	:	s	:	—	—	—	—	
:	r		d	:	d	:	t		l	:	—	—		l	:	—	—		t	:	d	:	r	:	r		s	:	—	—	—	—			

Ni rhaid i ni of - ni A'r Bu-gail ger-llaw,

Cytgan. Dau guriad i'r Mesur.

{	f		m	:	—	—		m	:	—	—		d	:	—	—		r	:	—	—		f	:	—	—		s	:	—	—			
:	t		d	:	—	—		d	:	—	—		l	:	—	—		t	:	—	—		d	:	—	—		d	:	—	—			
:	s		s	:	—	—		s	:	—	—		m	:	—	—		s	:	—	—		s	:	—	—		s	:	—	—			
:	s		d	:	—	—		d	:	—	—		l	:	—	—		s	:	—	—		d	:	r	:	—	—		m	:	—	—	

Mor fel - ys yw co - fio y daw ar ein hol.

CYSGOD Y GORLAN—*Parhad.*

{	f		f	:	—	—		m	:	—	—		r	:	—	—		d	:	—	—		r	:	—	—		s	:	—	—		f	:	—	—		m	:	—	—		r	:	—	—	
:	t		t	:	—	—		d	:	—	—		t	:	—	—		l	:	—	—		t	:	—	—		d	:	—	—		d	:	—	—		d	:	—	—		t	:	—	—	
:	s		s	:	—	—		s	:	—	—		f	:	—	—		m	:	—	—		s	:	—	—		s	:	—	—		l	:	—	—		l	:	—	—		r	:	—	—	
:	r		r	:	—	—		d	:	—	—		s	:	—	—		l	:	—	—		s	:	—	—		d	:	—	—		f	:	—	—		f	:	—	—		s	:	—	—	

I'n cyrch - u o'r an - ial i'r gor - lan yn ol,

cres.

{	r		d	:	—	—		d	:	—	—		m	:	—	—		m	:	—	—		d	:	—	—		l	:	—	—		s	:	—	—		f	:	—	—	
:	t		l	:	—	—		l	:	—	—		t	:	—	—		d	:	—	—		r	:	—	—		d	:	—	—		m	:	—	—		m	:	—	—	
:	f		m	:	—	—		m	:	—	—		se	:	—	—		l	:	—	—		se	:	—	—		l	:	—	—		se	:	—	—		l	:	—	—	
:	se		l	:	—	—		l	:	—	—		m	:	—	—		m	:	—	—		d	:	—	—		l	:	—	—		t	:	—	—		d	:	—	—	

Ond gwell na dych - wel - yd dan glwyf - au y byd

Yn araf.

{	r		s	:	—	—		d	:	—	—		r	:	—	—		s	:	—	—		f	:	—	—		m	:	—	—		d	:	—	—		m	:	—	—	
:	t		d	:	—	—		d	:	—	—		t	:	—	—		d	:	—	—		l	:	—	—		s	:	—	—		d	:	—	—		s	:	—	—	
:	s		s	:	—	—		s	:	—	—		s	:	—	—		l	:	—	—		s	:	—	—		f	:	—	—		m	:	—	—		s	:	—	—	
:	f		m	:	—	—		m	:	—	—		r	:	—	—		d	:	—	—		f	:	—	—		f	:	—	—		s	:	—	—		s	:	—	—	

Fydd a - ros yng nghys-god y gor - lan o hyd.

Yng nghysgod y gorlan
 A'r nos ar y bryn,
 A'r bleiddiaid yn rhuo
 Ar waelod y glyn;
 Cawn deimlo'n yr hirnoss
 Gyffyrddiad Ei law;
 Pwy ofnai'r gelynyon
 A'r Bugail gerllaw.
Cytgan—Mor felys, etc.

Yng nghysgod y gorlan
 Mae digon o le,
 A chroeso i bobloedd
 Pob gwlad dan y ne';
 Mae'r Iesu yn galw
 Trigolion y byd,
 I ddyfod i gysgod
 Y gorlan i gyd.
Cytgan—Mor felys, etc.

YNYS MANAW

Doh Bb. EILONWY JENKINS, B.A., L.R.A.M.
 { | m, i, t, | d :-l, :t, d | r :-t, :d, r | m :d :r |
 { | m :-m :s, m | r :-m :d, l, | s, :-l, :d, t, | l, :m :m | l, :- ||

Ym Methlehem, ei dirion drem
 A ddygodd bawb at ei grud
 Ei Seren Ef, a ddaeth a'r nef
 A'r Ewyllys Da i ni gyd.

Mae gemau'r byd, a'i berlau drud
 Yn bethau bregus eu braint
 Drwy gystudd byr, y thus a'r myrr
 Sy'n rhoi serenedd i'w saint.

Dwysog Hedd, heb unrhyw gledd
 Ein llywodraethwr wyt ti
 Eneiniog Duw, rhyfeddol yw
 Y Mab a roddwyd i ni.

IFOR REES, B.A., B.D.

PENRALLT

Doh F Islwyn Evans

s m r d r m r d l, d s,
 s m r d r m r r r m r
 s m r d d d f f s l
 s m d m m r d

Canwn i Dduw â'n calonnau bach ar dân,
 Canwn i Dduw am roi awen i bob cân,
 Canwn i Dduw am ein gwneuthur mor lân,
 Canwn, O canwn, i Dduw.

Molwn ein Duw am yr Iesu ddaeth i'r byd,
 Molwn ein Duw am Ei gariad oedd mor ddrud,
 Molwn ein Duw am ein cynnal o hyd,
 Molwn, O molwn, ein Duw.

Euros Jones Evans

PLANT CAERSALEM.

J. HENLEY, *cyf.* CERNYW.DOH *Ep.* *mf* Trefniant CARADOG ROBERTS, Mus. Doc. (Oxon.).

$\left\{ \begin{array}{l} d : d.m.r : f.r \quad d : t_1 \quad d : - \quad m : m.s \quad s : m : d.l \quad s : fe \quad s : - \\ s_1 : d \quad l_1 : l_1 \quad s_1 : s_1 \quad s_1 : - \quad d : s_1 \quad r : d : d.m \quad r : d \quad t_1 : - \\ m : m.s \quad s : f : r.f \quad m : r \quad m : - \quad s : m \quad r : m : m.d \quad t : l \quad s : - \\ d : d \quad f_1 : f_1 \quad s_1 : s_1 \quad d : - \quad d : d \quad t_1 : d : l_1 : d \quad r : r \quad s_1 : - \end{array} \right\}$

Plant Caersalem, la - wen lu, Sein-iant glod-ydd Ies - u cu ;

$\left\{ \begin{array}{l} s : r.m \quad f : -s \quad l : l \quad s : - \quad d' : s \quad l : s.f \quad m : r \quad d : - \\ t_1 : t_1.d \quad r : -d \quad d : f \quad m : - \quad d : d \quad d : t_1 : d.r \quad d : t_1 : s_1 : s_1 : - \\ s : s \quad l : -s \quad f : s : l.t \quad d : - \quad s : m \quad f : s : l \quad s : f \quad m : - \\ s : f.m \quad r : -m \quad f : f \quad d : - \quad m : d \quad f : r : m.f \quad s : s_1 \quad d : - \end{array} \right\}$

A rhydd plant yr oes sy'n awr Off-rwm serch i'r Ies - u mawr.

Cyngan. *mf* *res.*

$\left\{ \begin{array}{l} d : r \quad m : .t_1 \quad d : d : r : r \quad m : - \quad m : f \quad s : .r \quad m : m : fe : fe : s : - \\ l : t_1 \quad d : .s_1 \quad s_1 : d : d : t_1 \quad d : - \quad d : d \quad r : .t_1 \quad d : d : r : d \quad t_1 : - \\ m : s \quad s : .s \quad s : s : f : f : s : - \quad s : d' \quad t : .s \quad s : l : l : l : s : - \\ l_1 : s_1 \quad d : .f \quad m : m : r : r \quad d : - \quad d : l_1 \quad s_1 : .s \quad d : l_1 : r : r \quad s_1 : - \end{array} \right\}$

Clywch, clywch clywch, Eu mawl i Frenin nef. Clywch, clywch, clywch, Eu mawl i Frenin nef.

$\left\{ \begin{array}{l} d' : -s \quad l : s \quad d' : -s \quad l : s \quad d' : -s \quad l : s.f \quad m : r \quad d : - \quad d \quad d \\ d : -d \quad d : d \quad s : m : f : s : f : m \quad m : f : s : m : f : d : r \quad d : t_1 \quad d : - \quad l_1 \quad s_1 \\ s : m : f : s : f : m \quad s : -d' \quad d' : d' \quad s : -d' \quad d' : s : l \quad s : f \quad m : - \quad f \quad m \\ m : d : r : m : f : d \quad m : d : r : m : f : d \quad d : r : m : d : f : m : f \quad s : s_1 \quad d : - \quad f_1 \quad d \end{array} \right\}$

f Pêr gan-iad-au, Pêr ganiadau, Pêr gan-iad-au i'r Duw-ddyn. A-men.

Am oleuni'r cariad byw
Geir yn llewyrch geiriau Duw ;
Am agoriad ffordd i'r nef
Rhoddwn fawl i'w enw Ef.
Cyngan—Clywch, etc.

f Hen ac ieuanc ddelo 'nghyd,
Pob rhyw ra id, drwy'r eang fydd ;
Chwydded cân y ma' o
Nes cyrhaeddyd gorsedd Iôr.
Cyngan—Clywch, etc.

Cyfarfod y Prynhawn, am 2.30 o'r gloch.

Ilympôd: H Darchedig Ifor Rees

Barllenpôd: Bethan Ellis Owen

Cyfarfod yr Hwyr, am 6 o'r gloch.

Ilympôd: H Darchedig T.J. Davies

Barllenpôd: Rhodri Ilympwlyn

AYLESBURY. M. 1. (M.B.) Emyn 21, Ll.C.

DOH *Bp.* *Modd Lah.*

$\left\{ \begin{array}{l} l_1 : m : r \quad d : t_1 \quad l_1 : - \quad - \quad m : s : f \quad m : r \quad m : - \quad - \quad d \\ m : m : l_1 \quad l_1 : se_1 \quad l_1 : - \quad - \quad s_1 : s_1 : l_1 \quad s_1 : s_1 : s_1 : - \quad - \quad m_1 \\ d : l_1 : f \quad m : r \quad d : - \quad - \quad d : d : d \quad d : t_1 \quad d : - \quad - \quad m \\ l_1 : d_1 : r_1 \quad m_1 : m_1 \quad l_2 : - \quad - \quad d_1 : m_1 : f_1 \quad s_1 : s_1 \quad d_1 : - \quad - \quad l_1 \end{array} \right\}$

$\left\{ \begin{array}{l} t_1 : l_1 \quad m : d \quad r : d \quad t_1 \quad t_1 : m : r \quad d : t_1 \quad l_1 : - \quad - \quad t_1 : - \quad l_1 : - \\ m_1 : m_1 \quad se_1 : l_1 \quad l_1 : l_1 \quad se_1 \quad se_1 : l_1 \quad l_1 : se_1 \quad l_1 : - \quad - \quad se_1 : - \quad l_1 : - \\ r : d \quad t_1 : l_1 \quad f : m \quad m \quad m : m : f \quad m : r \quad d : - \quad - \quad r : - \quad de : - \\ se_1 : l_1 \quad m_1 : f_1 \quad r_1 : l_2 \quad m_1 \quad m_1 : d_1 : r_1 \quad m_1 : m_1 \quad l_2 : - \quad - \quad m_1 : - \quad l_2 : - \end{array} \right\}$

p I am fy meiau i *mp* Dyoddefodd angyddu loes,
Dyoddefodd Iesu mawr, Bu'n ufudd ar y bryn ;
res. Pan ddaeth yn ngrym ei gariad Ef, *mf* Ei waed a vlech yr Ethiop du
O entrych nef i lawr. Yn lân fel eira gwyn.
mf Cyflawnai'r gyfraith bur, *mf* Bu'n angyddu i'n hangeu ni
Cyflawnder gafodd iawn ; *p* Wrth farw ar y pren ;
f A'r ddyled fawr, er cymaint oedd, *res.* A thrwy ei waed y dygir llu,
A dalodd Ef yn llawn. Trwy angyddu i'r nefoedd wen. Amen

Rachie.

(Trwy ganiatad y Cyfansoddwr.)

Doh **A₉**. *Bywiog*.

CARADOG ROBERTS, Mus. Doc. (Oxon.)

mf

$\left\{ \begin{array}{l} s_1 : d l_1 : r d : - t_1 : - t_1 : m d : f m : - r : - \\ s_1 : s_1 f_1 : l_1 s_1 : - s_1 : - s_1 : t_1 l_1 : d d : - t_1 : - \\ d : m d : f m : - r : - r : s m : l s : - - : - \\ m_1 d_1 f_1 : r_1 s_1 : - s_1 : - s_1 : m_1 l_1 : f_1 s_1 : - - : - \end{array} \right\}$
I bob un sydd ffydd - lon Dan ei fan - er Ef

$\left\{ \begin{array}{l} r : s s : f r : f f : m r : - r : - r : - - : - \\ s_1 : s_1 s_1 : t_1 t_1 : d r r : d t_1 : - l_1 : d t_1 : - - : - \\ t_1 : d r : r s : s s : s s : - f e : - s : - - : - \\ s_1 : l_1 t_1 : s_1 s_1 : l_1 t_1 : d d r : - r_1 : - s_1 : - - : - \end{array} \right\}$
--

Mae gan Ie - su gor - on Fry yn nheyrn - as nef ;

decr.

$\left\{ \begin{array}{l} m : r d : r d : - t_1 : - d : t_1 t_1 : l_1 s_1 : - - : - \\ d : t_1 l_1 : l_1 l_1 : - s e : - l_1 : s_1 s_1 : f e s_1 : - - : - \\ s : f m : f m : - m : - m : r m r : d t_1 : - - : - \\ d : s_1 l_1 : r_1 m_1 : - m_1 : - l_1 : t_1 d r : r_1 s_1 : - - : - \end{array} \right\}$
--

Lluoedd Duw a Sot - an sydd yn cwrdd yn awr ;—

cres.

$\left\{ \begin{array}{l} s_1 : d l_1 : r t_1 : m d : f m : - r : - d : - - : - \\ s_1 : s_1 f_1 : l_1 s_1 : t_1 l_1 : r r : d - : t_1 d : - - : - \\ d : m d : f r : s m : l s : - - : f m : - - : - \\ m_1 : d_1 f_1 : r_1 s_1 : m_1 l_1 : f_1 s_1 : - s_1 : - d : - - : - \end{array} \right\}$
--

Mae gan blant eu cytran f Yn y rhyf - el mawr.

RACHIE—*parhad*.

CYTGAN.

fI	bob un	sydd ffydd - lon	Dan ei fan - er Ef,
$\left\{ \begin{array}{l} m : m m : - m m : - m : - s : s s : - s s : - - : - \\ : s e_1 : - l_1 t_1 : r d : t_1 l_1 : : t_1 : - d r : f m : r : d \\ m : m m : - m m : - m : - s : s s : - s s : - - : - \\ : m_1 : - b a_1 s e_1 : m_1 l_1 : t_1 d : : s_1 : - l_1 t_1 : s_1 d : r : m \end{array} \right\}$			
fI	bob un	sydd ffyddlon	Dan ei fan - er Ef,

$\left\{ \begin{array}{l} l : - l s : d f : s m : r m : - r : - d : - - : - \\ d : - d d : d d : r d : l_1 s_1 : d - : t_1 d : - - : - \\ f : - f s : s l : s s : f d : s - : f m : - - : - \\ f : - f m : m r : t_1 d : f_1 s_1 : - s_1 : - d_1 : - - : - \end{array} \right\}$
--

Mae gan Ie - su go - ron Fry yn nheyrn - as nef.

mf Medd'dod fel Goliath

Heria dyn a Duw ;

Myrdd a myrdd garchara,

Gan mor feiddgar yw :

Brodyr a chwiorydd

Sy'n ei gastell prudd ;

cres. Rhaid yw chwalu'i gaerydd,

Rhaid eu cael yn rhydd.

 fI bob un sydd ffyddlon, &c.

Awn i gwrdd y gelyn,

Bawb ag arfau glân ;

Uffern sydd i'n herbyn,

A'i phicellau tân ;

Gwasgwn yn y rhengau,

Ac edrychwn fry ;

Concwrwr byd ac angau

Acw sydd o'n tu.

cr. I bob un sydd ffyddlon, &c.

AB HEVIN, Merthyr.

WILLIAM. M.28.

MORFYDD LLWYN OWEN, Mus. Bac.
Medi, 1915.Doh F. (D leiaf.)
Heb fod yn araf.

C.I.

l :-	s :m	d :r	m :m	r :-	r :-	m :-	f e t :-	d' :r'
d :-	r :t ₁	l ₁ :l ₁	t ₁ :d	d :-	t ₁ :-	s ₁ :-	t ₁ m :-	m :m
m :-	r :s	m :f	s :s	l :-	s :-	m :-	r e s e :-	l :l
l ₁ :-	t ₁ :s ₁	l ₁ :f ₁	m ₁ :d ₁	f ₁ :-	s ₁ :-	d :-	t ₁ m :-	l ₁ :t ₁

1.F.

m' :d'	r' :-	t :-	l :-	l :-	l m :-	r :s	m :-	m :-
m :f	f :-	m :r	d :-	l :-	f d :-	d :t ₁	d :-	d :-
l :l	l :-	s e :-	l :-	l :-	d' s :-	l :s	s :-	t a :-
d :f	r :-	m :-	l ₁ :-	l ₁ :-	f d :-	f ₁ :s ₁	d :-	d ₁ :-

r :s	m :-	m :-	b a :s e	l :-	d' :-	t :l	s e :-
d :t ₁	s ₁ :-	m :-	m :m	m :-	r d :m	r e :r e	m :-
l :t	d' :-	m :-	m :m	m :-	m :-	f e :t	t :-
f ₁ :s ₁	d :-	m :-	m :r	d :-	t ₁ :l ₁	d	t ₁ :t ₁ m :-

l :-	s :m	r :m	r d :r	m :-	l :m	r d :t ₁	l ₁ :-
l :-	s :m	r :m	d :l ₁ :t ₁	d :r	d :l ₁	t ₁ :l ₁ s e	l ₁ :-
l :-	s :m	r :m	s :l	s	s e :l	f :m	r d :-
l :-	s :m	r :m	d :f ₁ :s ₁	d :t ₁ :l ₁	d ₁	r ₁ :m ₁	l ₁ :-

mf BYDD, bydd,
Rhyw ganu peraidd iawn rhyw ddydd,
cres. Pan ddelo'r caethion oll yn rhydd;
f Fe droir eu ffydd yn olwg fry:
Cydunant fyth heb dewi a sôn
I foli'r Oen fu ar Galfari.

mf Braint, braint,
Yw cael cymdeithas gyda'r saint,
Na welodd neb erioed ei maint;
Ni ddaw un haint byth iddynt hwy,
cres. Y mae'r gymdeithas yma'n gref,
Ond yn y nef hi fydd yn fwy.

f Rhad ras
Yw'r newydd gân bereiddia'i blas,
Fu erioed ar wyneb daear las!
Hi ddeil ei blas pan losgo'r byd,
Er berwi o'r môr â'i donnau'n dân,
cres. Y nefol gân fydd—Gras, i gyd.

TOMMY

Doh F.

D. Afan Thomas.

d :r	m :d	f :-	m	m,r,d:r :-	d :r	m :d
d :t ₁	d :d	d :-	d	d :t ₁ :-	l ₁ :t ₁	t ₁ :d
s :s	s :m	l :-	s	f e :s :-f	m :s	s :m
m ₁ :s ₁	d :l ₁	f ₁ :-	d	l ₁ :s ₁ :-	l ₁ :s ₁	m ₁ :l ₁

Nid ar fo -re haf - ddydd ta - wel Gwelwyd Ie - su'n
Ond ar noswaith o gyf - yng - der Pan oedd pryder

D.C.

f :-	m	- :r,d,r	d :-	s :l	f :s	l :-	s	f :s :-
r :-	d,t ₁	l ₁ :t ₁ ,l ₁ ,t ₁	d :-	r :d	t ₁ :d	t ₁ :-	d	t ₁ :d :-
l :-	s	d :f	m :-	t :l	l :s	f :-	s	l :s :-
r ₁ :-	m ₁	f ₁ :s ₁	d :-	m :f	r :m	r :-	m	r :m :-

rhod - - io'r don. Ni fu nos na thywydd garw
dan bob bron.

s :l	f :s	l :-	s	r,d,r:m :-	d :r	m :d	f :-	m
r :d	t ₁ :d	t ₁ :-	d	l ₁ :t ₁ :-	d :t ₁	d :d	d :-	d
t :l	l :s	f :-	s	l :s e :-	s :s	s :m	l :-	s
m :f	r :m	r :-	m	f :m :-	m ₁ :s ₁	d :l ₁	f ₁ :-	d

All-sai gadw f'Arglwydd drzw; Ni fu neber - ioed mor

m,r,d:r :-	d :r	m :d	f :-	m	- :r,d,r	d :-	f :-	m :-
d :t ₁ :-	l ₁ :t ₁	t ₁ :d	r :-	d,t ₁	l ₁ :t ₁ ,l ₁ ,t ₁	s ₁ :-	d :-	d :-
f e :s :-f	m :s	s :m	l :-	s	d :f	m :-	l :-	s :-
l ₁ :s ₁ :-	l ₁ :s ₁	m ₁ :l ₁	r ₁ :-	m ₁	f ₁ :s ₁	d :-	f ₁ :-	d :-

i - sel Na chai a - fael yn Ei law. A - men.

Ganol nos pan oedd mewn gweddi
Cofiai am eu gofid hwy;
Mae yn cofio, cofio eto
Yn y nef am lawer mwy;
Er fod canu'r gwynfyd iddo,
A'r holl nefoedd yn y côr,
Mae yn gweled Ei rai annwyl
Wrth eu rhwyfau ar y môr.

Nid yw'r Iesu'n well yn unman
Nag yng ngwaetha'r storom gref;
Mae y gwynt a'r nos a'r tonau
Oll yn eiddo iddo Ef;
Mae yn felys, melys meddwl,
Wedi colli'r cyfan bron,
Gwelir finnau yn ddihangol
Gyda'r Gŵr sy'n rhodio'r don!

ELFED.

TYDI A RODDAIST

Lah E. Doh G.

Arwel Hughes.

{	$\begin{matrix} :l_1 \\ :l_1 \\ :d \\ :l_1 \end{matrix}$	$\begin{matrix} d :- :t_1 \\ l_1 :- :se_1 \\ m :- :r \\ l_1 :- :m_1 \end{matrix}$	$\begin{matrix} l_1 :m :r \\ l_1 :- :se_1 \\ d :m :m \\ f_1 :d_1 :m_1 \end{matrix}$	$\begin{matrix} d :- .r :d \\ t_1 :l_1 :fe_1 \\ m :- :r \\ l_1 :- :r_1 \end{matrix}$	$\begin{matrix} t_1 :- \\ s_1 :- \\ r :- \\ s_1 :- \end{matrix}$	}
	Ty	- di,	a	rodd - aist	liw	i'r wawr,

{	$\begin{matrix} :t_1 \\ :f_1 \\ :r \\ :se_1 \end{matrix}$	$\begin{matrix} m :- .r :d \\ m_1 :- :l_1 s_1 \\ d :- :m \\ l_1 :- :l_1 \end{matrix}$	$\begin{matrix} t_1 d :r \\ f_1 :l_1 \\ r :f \\ r_1 :- :m_1 \end{matrix}$	$\begin{matrix} :d.t_1 \\ :se_1 \\ :m.r \\ :m_1 \end{matrix}$	$\begin{matrix} l_1 :- \\ l_1 :- \\ d :- \\ l_1 :- \end{matrix}$	$\begin{matrix} :- \\ :- \\ :- \\ :- \end{matrix}$	}
	A	hud	i'r	mach - lud	mwyn ;		

{	$\begin{matrix} :l_1 \\ :l_1 \\ :d \\ :l_1 \end{matrix}$	$\begin{matrix} d :- :t_1 \\ l_1 :s_1 :f_1 \\ d :- :r \\ f_1 :m_1 :r_1 \end{matrix}$	$\begin{matrix} l_1 :m :r \\ m_1 :- :se_1 \\ m :- :m \\ d_1 :- :m_1 \end{matrix}$	$\begin{matrix} d :- .r :d \\ t_1 :l_1 :fe_1 \\ m :- :r \\ l_1 :- :r_1 \end{matrix}$	$\begin{matrix} t_1 :- \\ s_1 :- \\ r :- \\ s_1 :- \end{matrix}$	}
	Ty	- di	a	lun aist	gerdd a	sawr

D.t.

{	$\begin{matrix} :t_1 m \\ :t_1 m \\ :t_1 m \\ :t_1 m \end{matrix}$	$\begin{matrix} l :- .t :d^1 \\ m :- .r :d \\ m :ba.se:l \\ d :- .t_1 :l_1 \end{matrix}$	$\begin{matrix} t_1 d^1 :r^1 :d^1 t \\ f :- :m.r \\ l :- :se \\ r :- :m \end{matrix}$	$\begin{matrix} l :- \\ d :- \\ l :- \\ l_1 :- \end{matrix}$	$\begin{matrix} :- \\ :- \\ :- \\ :- \end{matrix}$	}
	A	gwan - wyn yn	y	llwyn,		

f.G.

{	$\begin{matrix} :^1 m \\ :^1 m \\ :^1 m \\ :^1 m \end{matrix}$	$\begin{matrix} s :- :m \\ s :- :m \\ s :- :m \\ s :- :m \end{matrix}$	$\begin{matrix} d :- .t_1 :l_1 \\ d :- .t_1 :l_1 \\ d :- .t_1 :l_1 \\ d :- .t_1 :l_1 \end{matrix}$	$\begin{matrix} d :- :r \\ l_1 :- :l_1 \\ m :- :f \\ l_1 :s_1 :f_1 \end{matrix}$	$\begin{matrix} m :- \\ l_1 :se_1 \\ t_1 :m \\ m_1 :- \end{matrix}$	}
	O,	cad - w	ni	rhag coll - i'r	hud	

TYDI A RODDAIST—*parhad.*

{	$\begin{matrix} m \\ se_1 \\ m \\ r \end{matrix}$	$\begin{matrix} l :- :s \\ l_1 :m :r \\ m :l :r \\ d :- :t_1 \end{matrix}$	$\begin{matrix} m :- .r :d \\ d :- .t_1 :l_1 s_1 \\ s :- :m \\ d :- :d_1 \end{matrix}$	$\begin{matrix} t_1 d :r \\ f_1 :l_1 \\ r :f \\ r_1 :- :m_1 \end{matrix}$	$\begin{matrix} :d.t_1 \\ :se_1 \\ :m.r \\ :m_1 \end{matrix}$	$\begin{matrix} l_1 :- \\ l_1 :- \\ d :- \\ l_1 :- \end{matrix}$	}
	Sydd	hedd - iw'n	crwy - dro	drwy'r	holl	fyd.	

ff *I'w ganu ar ol y pennill olaf.*

{	$\begin{matrix} l \\ d \\ l \\ f \end{matrix}$	$\begin{matrix} :- \\ :- :r \\ :- :t \\ :- :- \end{matrix}$	$\begin{matrix} s :- :- \\ m :- :- \\ d^1 :- :- \\ d :- :- \end{matrix}$	$\begin{matrix} f :- :- \\ l_1 :- :r \\ l :- :t \\ r :- :- \end{matrix}$	$\begin{matrix} m :- :- \\ t_1 :- :- \\ se :- :- \\ m :- :- \end{matrix}$	}
	A	- -	men,	A	- -	men,

{	$\begin{matrix} d \\ l \\ l_1 \end{matrix}$	$\begin{matrix} :d^1 :- \\ :- :m \\ :- :d \end{matrix}$	$\begin{matrix} -.t :r^1 :d^1 t \\ f :- :m.r \\ r :- :m \end{matrix}$	$\begin{matrix} l :- :- \\ d :- :r \\ l :- :- \\ f :- :- \end{matrix}$	$\begin{matrix} se :- :- \\ t_1 :m :r \\ t :- :- \\ m :- :- \end{matrix}$	$\begin{matrix} l :- :- \\ de :- :- \\ l :- :- \\ m :- :- \end{matrix}$	}
	A	- -	men,	A	- -	men.	

Tydi, a luniaist gân i'r nant,
 A'i si i'r goedwig werdd ;
 Tydi a roist i'r awel dant,
 Ac i'r ehedydd gerdd :
 O ! cadw ni rhag dyfod dydd
 Na yrr ein calon gân yn rhydd.

Tydi, a glywaist lithriad traed
 Ar ffordd Calfaria gynt ;
 Tydi, a welaist ddafnau gwaed
 Y Gŵr ar ddieithr hynt :
 O ! cadw ni rhag dyfod oes
 Heb goron ddrain, na chur, na chroes.

T. ROWLAND HUGHES

PANTYFEDWEN

Twry ganiatad Pwyllgor Pantyfedwen

Doh F.

M. EDDIE EVANS

.d :d.r | m :-d | r.r :d.t | d :-|-. || .d :r.m | f :-f | f.m :m.r | r :-|-. ||
 .s₁ :l₁.t₁ | d :-d | l₁.l₁:s₁.s₁ | s₁ :-|-. || .l₁:t₁.d | d :-d | r.d :d.d | t₁ :-|-. ||
 .m :m.s | s :-s | f.f :m.r | m :-|-. || .m :s.s | l :-l | l.s :s.f | s :-|-. ||
 .d :l₁.s₁ | d :-m₁ | f₁.f₁:s₁.s₁ | d :-|-. || .l₁:s₁.d | d :-d | t₁.d :l₁.r | s₁ :-|-. ||

f

cresc

.r :s.f | m :-m | l.s :f.m | f :-|-. || .f :m.r | s :-m | r.s :t.l | s :-|-. ||
 .t₁:d.r | d :-r | d.e :d.e :d.e | r :-|-. || .r :d.t₁ | d :-d | t₁.t₁:d | d | t₁ :-|-. ||
 .f :m.s | s :-s | m.l :l.l | l :-|-. || .l :s.s | s :-s | s.s :f.e :f.e | s :-|-. ||
 .s₁:l₁.t₁ | d :-t₁ | l₁.l₁:l₁.l₁ | r :-|-. || .r :s.f | m :-d | r.r :r.r | r | s₁ :-|-. ||

mf

cresc

.m :m.f | s :-m | r.r :r.m | f :-|-. || .r :r.m | f :-r | s.f :m.r | m :-|-. ||
 .d :d.r | m :-d | t₁.t₁:l₁.d | r :-|-. || .t₁:l₁.d | r :-t₁ | d.d :d.t₁ | d :-|-. ||
 .s :s.s | d :-s | s.s :l.l | l :-|-. || .s :l.l | l :-s | s.l :s.s | s :-|-. ||
 .d :d.d | d :-d | s.s :f.m | r :-|-. || .s :f.m | r :-f | m.r :s.s | d :-|-. ||

ff Yn Gadarn

Rall

.s :s.d | d :-l | s.s :f.m | r :-|-. || .s :s.f | m :-s | f.r :d.t₁ | d :-|-. ||
 .d :t₁.d | d :-d | d.d :t₁.d | t₁ :-|-. || .d :d.t₁ | d :-d | d.l :s₁.s₁ | s₁ :-|-. ||
 .m :f.s | l :-d | s.s :s.s | s :-|-. || .s :l.s | s :-t₁ | l.f :m.r | m :-|-. ||
 .d :r.m | f :-f | m.m :r.d | s₁ :-|-. || .m :r.s | d :-m₁ | f₁.f₁:s₁.s₁ | d :-|-. ||

Tydi a wnaeth y wyrth, O ! Grist, Fab Duw,
 Tydi a roddaist imi flas ar fyw ;
 Fe gydiaist ynof trwy dy Ysbryd Glân,
 Ni allaf, tra bwyf byw, ond canu'r gân ;
 'Rwyf heddiw'n gweld yr harddwech sy'n parhau,
 'Rwy'n teimlo'r ddwyfol ias sy'n bywiocau ;
 Mae'r Haleliwia yn fy enaid i
 A rhoddaf, Iesu, fy mawrhad i Ti.

Tydi yw Haul fy nydd, O ! Grist y Groes,
 Yr wyt yn harddu holl orwelion f'oes ;
 Lle'r oedd cysgodion nos mae llif y wawr,
 Lle'r oeddwn gynt yn ddall 'rwy'n gweld yn awr ;
 Mae golau imi yn dy Berson hael,
 Penllanw fy ngorfoledd yw dy gael ;
 Mae'r Haleliwia yn fy enaid i
 A rhoddaf, Iesu, fy mawrhad i Ti.

PANTYFEDWEN—Parhad

Tydi sy'n haeddu'r clod, Ddihalog un,
 Mae ystyr bywyd ynot Ti dy Hun ;
 Yr wyt yn llanw'r gwacter trwy dy Air,
 Daw'r pell yn agos ynot, O ! Fab Mair ;
 Mae melodïau'r cread er dy fwyn,
 Mi welaf dy ogoniant ar bob twyn ;
 Mae'r Haleliwia yn fy enaid i
 A rhoddaf, Iesu, fy mawrhad i Ti.

W. RHYS NICHOLAS

BURFORD. M.3. (M.C.) Emyr 34, A.L.

Doh Bp. Modd Lah.

{ l₁ | l₁ :- t₁ | d :- r | m : r : d | t₁ :- | se₁ | l₁ :- t₁ |
 : m₁ | m₁ :- m₁ | m₁ :- s₁ | s₁ : f₁ : m₁ | m₁ :- | m₁ | m₁ : l₁ : se₁ |
 : d | d :- r | d :- t₁ | d : l₁ : - | se₁ :- | t₁ | d :- m |
 : l₁ | l₁ :- se₁ | l₁ :- s₁ | d₁ : r₁ : l₁ | m₁ :- | m₁.r₁ | d₁ : f₁ : m₁ |

{ d :- r | m :- | m | r : d : t₁ | d :- r | m : r : d |
 m₁ :- | l₁ | se₁ :- | s₁ | s₁ :- s₁ | s₁ : m₁ : s₁ | s₁ :- s₁.l₁ |
 d : t₁ : l₁ | t₁ :- d | t₁ : d : r | s₁ : l₁ : t₁ | d : f : m |
 l₁ : s₁ : f₁ | m₁ :- d₁ | s₁ :- f₁ | m₁ :- r₁ | d₁ : r₁ : m₁.f₁ |

{ t₁ :- | m | l₁ :- t₁ : d | t₁ : l₁ : se₁ | l₁ :- | l₁ :- l₁ :- |
 s₁ :- | m₁ | m₁ :- m₁ | f₁ :- m₁ | m₁.r₁ | de₁ :- | f₁ :- m₁ :- |
 r :- | t₁ | d :- t₁ : l₁ | r : d : t₁ | l₁ :- | r :- de₁ :- |
 s₁ :- | se₁ | l₁ :- se₁ : l₁ | r₁ :- m₁ | l₁ :- | r₁ :- l₁ :- |

mp PAN ddelo angyu yn ei rwysg
 I dori fy oll i lawr,
 mf Fy unig noddfa werthfawr fydd
 Yn fy Ngwaredw'r mawr.

Fe saif cyfamod pur y nef
 Pryd hyny yn ei rym ;
 Pan fo pob cysur is y nef
 dim. Wedi diflanu'n ddim.

mp O gâd im' mewn tangnefedd pur,
 Roi f'anadl ola' i maes ;
 cres.Ac mewn gortoledd hwylio dros
 Y cefnfor garw glâs. Amen.

Salm 121

Doh D

Walford Davies

$$\left\{ \begin{array}{l} m :- | s : l | d' :- \\ m :- | s : l | d' :- \end{array} \right\} \left\| \begin{array}{l} m :- | s : l | s : s | s :- \\ d :- | r : f | r : r | m :- \\ l :- | t : d' | d' : t | d' :- \\ l :- | s : f | s : s | d :- \end{array} \right\|$$

$$\left\{ \begin{array}{l} s :- | l : d' | \underline{t : l} \\ s :- | l : d' | \underline{t : l} \end{array} \right\} \left\| \begin{array}{l} m :- | s : l | s : r | m :- \\ d :- | r : f | r : r | d :- \\ l :- | t : d' | d' : t | d' :- \\ l :- | s : f | s : s | d :- \end{array} \right\|$$

1. Dyrchafaf fy llygaid	i'r mynydd-oedd,	O'r lle y daw fy nghymorth.
2. Fy nghymorth a ddaw oddi	wrth yr Ar-glwydd,	Yr hwn a wnaeth nefoedd a daear.
3. Ni ad Efe i'th droed	lithro :	Ac ni hu- — na dy geidwad
4. Wele, ni hu- — na		Ac ni chwsg— Ceidwad Israel.
5. Yr Arglwydd yw dy Geidwad :	Yr Ar-glwydd yw dy	gysgod ar dy dde-heulaw.
6. Ni'th dery yr haul y dydd,		Na'r lleu- — ad y nos.
7. Yr Arglwydd a'th geidw rhag pob drwg :		Efe a gei- — dw dy enaid.
8. Yr Arglwydd a'th ddy-fodiad,		O'r pryd hwn hyd yn dra-gywydd.

GROESWEN

Doh Bb.

J. AMBROSE LLOYD.

$$\left\{ \begin{array}{l} d : s_1 | l_1 : t_1 | d : r | m : d | f : l_1 | r : d | t_1 : l_1 | s_1 : — \\ m_1 : s_1 | f_1 : f_1 | m_1 : s_1 | s_1 : m_1 | f_1 : f_1 | s_1 : s_1 | s_1 : f_1 | s_1 : — \\ d : d | d : r | d : t_1 | d : m | r : r | r : m | r : d | t_1 : — \\ d_1 : m_1 | f_1 : r_1 | l_1 : s_1 | d : d_1 | r_1 : r_1 | d_1 : t_2 | d_1 | r_1 : r_1 | s_1 : — \end{array} \right\}$$

$$\left\{ \begin{array}{l} d : s_1 | l_1 : t_1 | d : r | m : d | f : r | s : f | m : r | d : — \\ m_1 : s_1 | f_1 : f_1 | m_1 : s_1 | s_1 : m_1 | l_1 : s_1 | s_1 : l_1 | s_1 : f_1 | m_1 : — \\ d : d | d : r | d : t_1 | d : m | r : t_1 | d : d | d : t_1 | d : — \\ d_1 : m_1 | f_1 : r_1 | l_1 : s_1 | d : d_1 | r_1 : s_1 | f_1 | m_1 : f_1 | s_1 : s_1 | d_1 : — \end{array} \right\}$$

$$\left\{ \begin{array}{l} d : m | r : — | r : f | m : — | m : s | f : r | d : t_1 | d : — | \overbrace{d}^{\wedge} \overbrace{d}^{\wedge} \\ s_1 : s_1 | s_1 : — | s_1 : s_1 | s_1 : — | s_1 : s_1 | l_1 : l_1 | s_1 : f_1 | m_1 : — | f_1 | m_1 \\ d : d | t_1 : — | r : t_1 | d : — | d : d | d : f | m : r | d : — | l_1 | s_1 \\ m_1 : d_1 | s_1 : — | t_1 : s_1 | d : — | d : m_1 | f_1 : f_1 | s_1 : s_1 | d_1 : — | f_1 | d_1 \end{array} \right\}$$

Amen.

Mawr oedd Crist yn nhragwyddoldeb,
Mawr yn gwisgo natur dyn ;
Mawr yn marw ar Galfaria,
Mawr yn maeddu angau'i hun ;
Hynod fawr yw yn awr,
Brenin nef a daear lawr.

Mawr oedd Iesu yn yr arfaeth,
Mawr yn y cyfamod heddd ;
Mawr ym Methlem a Chalfaria,
Mawr yn dod i'r lan o'r bedd ;
Mawr iawn fydd Ef ryw ddydd
Pan ddatguddir pethau cudd.

Mawr yw Iesu yn ei Berson ;
Mawr fel Duw, a mawr fel dyn ;
Mawr ei degwch a'i hawddgarwch,
Gwyn a gwridog, teg ei lun ;
Mawr yw Ef yn y nef
Ar ei orsedd gadarn gref.

TITUS LEWIS, 1, 3 ; AN., 2

GLAN-Y-LLYN

Doh G.

JOHN JENKINS, F.R.C.O.

{m	m :s	f :m.r	m :—	— :m.r	d :r.m:r :l ₁	t ₁ :—	—
{l ₁ .t ₁	d :de	r :d	d :—	t ₁ :se ₁	l ₁ :t ₁ .d l ₁ :l ₁	se ₁ :—	—
{d.r	m :m	f :l	l :—	se :m	m :r.d re:re	m :—	—
{l ₁	l ₁ :l ₁	r ₁ :f ₁	m ₁ :—	— :m ₁	l ₁ :l ₁ f ₁ :f ₁	m ₁ :—	—

{t ₁	d :—r	m :l	s :—m	f :m.r	d :—d	t ₁ :l ₁	se ₁ :—	—
{se ₁	l ₁ :—se ₁	l ₁ :l ₁	l ₁ :—l ₁	l ₁ .d:t ₁ .se ₁	l ₁ :—s ₁	f ₁ :f ₁	m ₁ :—	—
{m	m :—r	d :m	m :—s	f.l :se.m	m :—r	r :d	t ₁ :—	—
{m ₁	l ₁ :—t ₁	d :d	de :—de	r :m	l ₁ :—l ₁	r ₁ :re ₁	m ₁ :—	—

B

G

{t ₁	d :m	s :d	f.m:r	m :f ₁ r	m :d	s ₁ :r	d m :—	—
{se ₁	l ₁ :l ₁	t ₁ :d	l ₁ :t ₁	d :l ₁ f ₁	m ₁ :s ₁	m ₁ :f ₁	m ₁ se ₁ :—	—
{m	m :d	r :m	f :s	s :m d	d :m	d :t ₁	d m :—	—
{m ₁	l ₁ :l ₁	s ₁ :m ₁	r ₁ :s ₁	d :d la ₁	s ₁ :s ₁	s ₁ :s ₁	d m ₁ :—	—

{m	l :s	m :m	f :m.r	d :d	r :m	f :l	t :—l	se
{t ₁	d :r	d :d	r.d:t ₁ .se ₁	l ₁ :l ₁	l ₁ :l ₁	r :r	re :—re	m
{m	m :r.s	s :l	l :se.m	m :m	r :de	r :f	fe :—t	t
{se ₁	l ₁ :t ₁	d :l ₁	r ₁ :m ₁	l ₁ :s ₁	f ₁ :m ₁	r ₁ :r.d	t ₁ :—t ₁	m

{m	m :s.f	m :r	d :—	— :t ₁	l ₁ :—	—	l ₁ :—	l ₁ :—
{t ₁	d :r	d :t ₁	l ₁ :—	se ₁ :se ₁	l ₁ :—	—	f ₁ :—	m ₁ :—
{se	l :—	— :f	m :—	— :r	d :—	—	r :—	de :—
{m	l ₁ :t ₁	d :r	m :—	m ₁ :m ₁	l ₁ :—	—	r ₁ :—	l ₁ :—

A - men.

Mae'm rhedfa is y rhod

Yn nesu at y nôd—

I'm hymdaith hon is awyr gron

Mae diwedd bron a dod :

Fy mhabell frau sydd yn llescâu,

Ac yn gwanhau o hyd ;

Ac yn y man daw'r amser pan

Bydd f'enaid gwan yn fywiol ran

Mewn annherfynol fyd.

O Dduw, rho im' Dy hedd,

A golwg ar Dy wedd ;

A maddau nawr fy meiau mawr,

Cyn 'relwy'i lawr i'r bedd :

Ond im' gael hyn nid ofna' i'r glyn

Na cholyn angy'n hwy ;

Dof yn Dy law i'r ochor draw

Heb friw na braw, ryw ddydd a ddaw

Uwchlaw pob loes a chlwy !

IEUAN GLAN GEIRIONYDD.

Bunberg

Doh: C

R. Wagner

{d' :s	l.t:d'	r' :—g' m'	s :d'	t :—t	d:t:l	s :—	—
{m :s	s.f:m	l :s	s :s	d :m	m :m	m :s.f ₁ r	—
{s :d'	l :—	t d'	t :d'	m :fe	t.d'r	d' :d'	t :—
{d :m	r :l	f :s	d :—	d :l	s :se	l :r	le :—

{l :t	d.r'm'	m' :—r ₁ q ₁ m'	l.t:d'	f.s:l.d	t :l.se ₁	—	—
{m :m	l :s	fe :—g ₁ l s	f :s.d ₁ r	m :f	m :m	—	—
{d' :t	l :t	d' :t	t :t	l :s	l :l	l.r' :—d ₁ t	—
{l :s	f :m	l ₁ :t ₁	m :—	f :m	r :d	r :m	l :—

{d' :s	l.t:d'	r' :—g' m'	d' :f'	l.r'd'	d' :t	d' :—	—
{m :s	s.f:m	l :s	s :s	f :l	se :l	s :—f ₁ m	—
{s :d'	l :—	t d'	t :d'	l :t	t :l.f	m' :r'	d' :—
{d :m	r :l	f :s	d :—	f :r	l m :f	s :s ₁	d :—

Efengyl i'r holl Fyd

HYFRYD lais efengyl hedd

Sydd yn galw pawb i'r wledd;

Mae gwahoddiad llawn at Grist—

Oes, i'r tlawd newynog trist:

Pob cyfiawnder ynddo cewch;

Dewch â chroeso, dlodion, dewch.

Cyfod, Haul Cyfiawnder llon!

Dyrcha dros y ddacwr hon;

Aed dy lewyrch i bob gwlad—

Yn dy esgyll dwg iachâd:

Dos ar gynnnydd, nefol ddydd;

Doed y caethion oll yn rhydd.

Iesu gaiff y clod i gyd,

Ymaith dug bechodau'r byd:

Rhoes ei Hunan yn ein lle,

Bellach, beth na rydd Efe?

Haleliwia! llawenhewch!

Dewch, moliennwch, byth na thewch.

PEDR PARDD.

DOWN AMPNEY

Doh Eb.

RALPH VAUGHAN WILLIAMS.

{ d :—| r :m | s :—| l :—| s :—| :—| s :—| l :s | d' :t | l :—|
 { s₁ :—| s₁ :d | d :t₁ | l₁ :t₁ | d :—| :—| m :—| m :r | d :r | d :—|
 { m :—| s :d | r :—| f :r | m :—| :—| s :—| d :r | m :s | s :fe
 { d :—| t₁ :d | s₁ :—| f₁ :—| d :—| :—| d :—| d :t₁ | l₁ :t₁ | r :—|
 { s :—| s :—| l :s | f :m | r :d | r :m :f | r :—| d :—|
 { t₁ :—| d :—| d :t₁ | d :d | l₁ :d | d :d | d :t₁ | d :—|
 { s :—| m :—| f :r | f :s | f :s | l :l | s :—| f :m :—|
 { s₁ :—| d :—| f₁ :s₁ | l₁ :d | f :m | f :r | s₁ :—| d :—|
 { d' :—| t :l | s :—| l :—| s :—| t_a :—| l :s | f :—| m :—|
 { m :—| m :d | m :—| r :d | t₁ :—| r :—| d :d | l₁ :t₁ | d :—|
 { l :—| s :l | d' :t | l :—| t :—| f :s | l :m | f :—| s :l
 { l :—| m :f | d :m | fe :—| s :—| r :m | f :d | r :—| m :f
 { r :—| r :—| s :l | s :f | m :d | r :m :f | r :—| d :—|
 { s₁ :—| t₁ :—| d :d | t₁ :d :r | s₁ :d | d :d | d :t₁ | d :—|
 { t :—| s :—| s :f | r :l | s :s | l :f | s :—| f :m :—|
 { s :—| s₁ :f₁ | m₁ :f₁ | s₁ :l₁ :t₁ | d :m | f :r | s₁ :—| d :—|

Tyrd, Ysbryd Cariad mawr,
 Ymwel â llwch y llawr;
 A threiddia nerth i mewn i'm hysbryd egwan.
 Ddiddanydd, agosâ,
 Fy nghalon i cryfha,
 A chynnau'r tân yn hon, dy newydd drigfan.

Dy gwmni, Sanctaidd Un,
 Drwy nwydau meidrol ddyn
 Yn llwch a lludw yn ei danlyd fflamau;
 A'th olau nerthol Di
 Fyddo f'arweinydd i,
 Ac ar fy ffordd yn llewyrch mwy i'm llwybrau.

Tywynned Haul dy ras
 O wyneb-pryd dy was,
 A'i darddiad fyddo'r galon iselfrydig;
 Yr hon a wyla'n lli
 Dros ei diffygion hi,
 Gan ddwyn ei chroes ar ysgwydd ostyngedig.

Uwch deall dynol-ryw
 Fo'r hiraeth dwfn am Dduw
 A phresenoldeb Ysbryd Crist byth bythoedd.
 Ei ras ni wyr un dyn,
 Nes dod yn deml ei hun
 Lle triga'r Ysbryd Sanctaidd yn oes oesoedd.

BIANCO DA SIENA (m. 1434), cyf. HYWEL M. GRIFFITHS

Glanaber

Doh D.

Elsbeth M. Lewis

{ d :m | s :.s | f :m | l :s | s :s | d' :l | s :.f | m :—|
 { d :m | s :.s | f :m | l :s | m :r | d :m | l₁ :t₁ | d :—|
 { d :m | s :.s | f :m | l :s | s :s | m :l | f :s | s :—|
 { d :m | s :.s | f :m | l :s | d :t₁ | l₁ :d | r :s | d :—|
 { m :s | l :.l | t :l | d' :l | d' :d' | t :l | s :f | s :—|
 { m :s | l :m | f :r | m :m | d :r | r :m | m :d | r :—|
 { m :s | l :l | l :s | e | t :d' | m :f | s :d' | d' :l | t :—|
 { m :s | l :d | r :m | l₁ :l₁ | l₁ :t₁ :d | r :r | s :—|
 { r :r | d :s | l :s | f :m | m :m | d' :.d | t :d' | r :—|
 { t :t | d :d | d :t | r :d | m :r | d :m | f | e :f | s :—|
 { s :s | s :m | f | m :r | s :s | m :s | e | l :l | l₁ :r' | d' :t
 { s :f | m :d | f :s | d :d | m :m | l₁ :d | r :r | s :—|
 { s :s | m' :.r | d' :t | l :s | f :m | m :s :.l | r :r | d :—|
 { s :s | s :f | m :s | e | l :m | r :t₁ | d :.d | d | t₁ | s :—|
 { s :s | d' :t | d' :r' | d' :t | a | f :f' | s :.d | s :f | m :—|
 { s :s | d :s | l :m | f :d | e | r :r | m :.f | s :s | d :—|

Am yr Eglwys a'i chymdeithas
 Lle mae teulu'r ffydd yn un
 Yn ymorol am y Deyrnas
 Gyda'i gilydd yn gytûn,
 Am eu hyder wrth anelu
 At y gamp uchela'n bod,
 Am eu dawn i ymdawelu
 I'r Penteulu rhoddwn glod,

Gyda'u cyd-ddyheu cariadus
 Wrth ymaflyd yn eu gwaith
 Fe ddaw grym y gras afradus
 I'w tymeru ar eu taith,
 Pan ymgasgla'r holl aelodau
 Ar eu haelwyd ddiwedd dydd
 Fe gyfannir eu profiadau
 Gan Benteulu mawr eu ffydd,

Ifor Rees

IN MEMORIAM. (1) M. 10 (8.7.D.)

MORSWYN.

Doh G. *Modd Lah.*

CARADOG ROBERTS, Mus. Doc. (Oxon.).

{	d :d	d :-t ₁ l ₁	:se ₁	t ₁ :l ₁ m :m	m :-r d :r	t ₁ :—	
	l ₁ :s ₁	f ₁ :-f ₁ m ₁	:m ₁	se ₁ :l ₁ d :t ₁	l ₁ :-l ₁ l ₁ :l ₁	se ₁ :—	
	m :m	r :-r d :t ₁		r :d m :m	f :-f m :f	m :—	
	l ₁ :l ₁	r ₁ :-r ₁ m ₁	:m ₁	l ₁ :l ₁ l ₁ :s ₁	f ₁ :-f ₁ l ₁ :r ₁	m ₁ :—	

{	d :d	d :-t ₁ l ₁	:se ₁	t ₁ :l ₁ m :r	s :-d r :m	d :—	
	l ₁ :s ₁	f ₁ :-f ₁ m ₁	:m ₁	se ₁ :l ₁ d :t ₁	d :-d l ₁ :t ₁	d :—	
	m :m	r :-r d :t ₁		r :d s :s	s :-m f :f	m :—	
	l ₁ :l ₁	r ₁ :-r ₁ m ₁	:m ₁	l ₁ :l ₁ s ₁ :f ₁	m ₁ :-l ₁ f ₁ :s ₁	d :—	

{	m :m	m :-m m :m	m :m s :s	s :-s s :s	s :—	
	m :m	se ₁ :-l ₁ r :d	d :t ₁ s :s	t ₁ :-d f :m	r :—	
	m :m	m :-m se :l	l :se s :s	s :-s t :d'	t :—	
	m :m	r :-d t ₁ :l ₁ .d	m :m s :s	f :-m r :d.m	s :—	

{	m :m	l :-l s :f	m :r d :d	d :-t ₁ l ₁ :se ₁	l ₁ :—	l ₁ l ₁	
	m :m	d :-d d :t ₁	d :t ₁ l ₁ :s ₁	f ₁ :-f ₁ m ₁ :m ₁	m ₁ :—	f ₁ m ₁	
	m :m	f :-f s :s	s :f m :m	r :-r d :t ₁ .r	d :—	r de	
	m :m	f :-f m :r	d :s ₁ l ₁ :l ₁	r ₁ :-r ₁ m ₁ :m ₁	l ₁ :—	r ₁ l ₁	

A-men.

mf ARGWYDD Iesu, arwain f'enaidd

At y Graig sydd uwch na mi—

Craig safadwy mewn tymhestloedd,

cres. Craig a d'heil yng ngrym y lli :

Llechu wnaf yng Nghraig yr Oesoedd,

Deued diluw, deued tân ;

f A phan chwalo'r greadigaeth,

Craig yr Oesoedd fydd fy nghân.

f Pan fo creigiau byd yn rhwygo

Yn rhyferthwy'r farn a ddaw,

Stormydd creulawn yno'n curo,

Cedryn fyrdd o'm cylch mewn braw—

ff Craig yr Oesoedd ddeil pryd hynny,

Yn y dyfroedd, yn y tân :

Draw, ar gefnfor tragwyddoldeb,

Craig yr Oesoedd fydd fy nghân.